Briff Seneddol: Bil Etholiadau

28 Gorffennaf 2021

Mae'r briff hwn yn tynnu sylw at ystyriaethau allweddol cyn i'r Senedd ystyried y Bil Etholiadau, ac mae'n amlinellu safbwynt y Comisiwn mewn perthynas â'r prif fesurau.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Un rhan allweddol o'n rôl yw rhoi cyngor i'r llywodraeth a'r Senedd ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau a rheoleiddio ymgyrchwyr.

Byddwn yn parhau i roi cyngor annibynnol i seneddwyr ar gynnwys y Bil, yn seiliedig ar dystiolaeth gyhoeddedig a'n harbenigedd. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fanylach am gymalau unigol yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd.

Unwaith y bydd y Bil wedi'i basio'n gyfraith, byddwn yn gweithio gyda phleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadau lleol, pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr a chyrff cynrychioliadol er mwyn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud ag etholiadau yn deall y rheolau newydd ac yn barod ar eu cyfer.

Cynnwys

Ystyriaethau allweddol mewn perthynas â mesurau cyfunol y Bil 2

Rhan 1 Gweinyddu a chynnal etholiadau 4

Rhan 2 Pleidleiswyr tramor a dinasyddion yr UE 8

Rhan 3 Y Comisiwn Etholiadol 10

Rhan 4 Rheoleiddio gwariant 12

Rhan 5 Anghymwyso troseddwyr rhag dal swydd etholedig ac ati 16

Rhan 6 Gwybodaeth i gael ei chynnwys gyda deunydd electronig 17

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch ag Ella Downing, Swyddog Cyfatherbu

Ystyriaethau allweddol mewn perthynas â mesurau cyfunol y Bil

- Mae'r Bil Etholiadau yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol, a bydd yn effeithio ar bleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadau. Byddai'n cyflwyno nifer o newidiadau pwysig y mae'r Comisiwn ac eraill wedi dadlau yn y gorffennol y byddant yn dod â buddiannau i bleidleiswyr, gan gynnwys: ymestyn y rheolau ynglŷn ag argraffnodau i ddeunydd ymgyrchu digidol; caniatáu cymorth mwy hyblyg i bleidleiswyr anabl; diwygio'r drosedd o ddylanwad gormodol; a gwella tryloywder ynghylch asedau pleidiau newydd.

- Bydd angen cynllunio a rheoli'r broses o roi'r newidiadau ar waith yn ofalus fel y gellir eu cyflwyno yn ôl y bwriad. Gallai methu â chyflwyno newid mor fawr yn effeithiol – er enghraifft, os nad oes digon o amser i gynllunio neu os nad yw'r adnoddau gofynnol ar gael – arwain at wallau neu brofiad annigonol i bleidleiswyr neu ymgyrchwyr. Yn ei dro, gallai hyn wneud drwg i hyder yn uniondeb etholiadau yn y dyfodol.

- Wrth ystyried sut a phryd y dylid dechrau pob un o'r mesurau, bydd angen i'r Llywodraeth ystyried mewn modd cyfannol allu pleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadau i ymateb i'r newid a'i roi ar waith. Yn ddiweddar, nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol bryderon mewn perthynas â gallu presennol y seilwaith lleol i gynnal etholiadau.

- Bydd angen amser ar bawb sy'n gysylltiedig â chynnal neu gymryd rhan mewn etholiadau i ddeall newidiadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau a pharatoi ar eu cyfer. Dylai gwaith cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer rhoi'r Bil ar waith ystyried yr amrywiaeth o etholiadau sydd eisoes wedi'u trefnu neu y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod y tair i bedair blynedd nesaf.

- Bydd angen ariannu cynlluniau gweithredu'r Llywodraeth yn ddigonol hefyd er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno'r pecyn cyfunol o fesurau yn realistig. Caiff newidiadau i etholiadau Senedd y DU a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu hariannu'n uniongyrchol gan y llywodraeth, ond bydd angen i awdurdodau lleol dalu am gostau newid prosesau cofrestru etholiadol ac etholiadau lleol yn y tymor hwy. Bydd angen adnoddau ar gyfer gwaith y Comisiwn hefyd, gan gynnwys cryn dipyn o weithgarwch i gefnogi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan y Senedd drwy Bwyllgor y Llefarydd.

- Mae'r Bil yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig gyfan, ond byddai rhai darpariaethau'n cael eu cymhwyso'n wahanol mewn etholiadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yn ceisio cymeradwyaeth gan ddeddfwrfeydd eraill er mwyn gallu cymhwyso'r darpariaethau hyn yn fwy cyson. Dylai nodi hynt y broses gymeradwyo hon cyn gynted â phosibl, er mwyn cael eglurder o ran effaith debygol y Bil ar bleidleiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadau mewn rhannau gwahanol o'r DU.

- Dylai hefyd ystyried unrhyw risgiau i bleidleiswyr, ymgyrchwyr neu weinyddwyr etholiadau pe bai cryn wahaniaethau yn y rheolau a fyddai'n gymwys i etholiadau yn y dyfodol, yn enwedig lle gallai gwahanol fathau o etholiadau gael eu cynnal ar yr un diwrnod.

- Bydd y Bil hwn, a'r is-ddeddfwriaeth y bydd ei hangen i'w roi ar waith, yn cynyddu maint corff cyfraith etholiadol y DU yn sylweddol. Mae'r cyfreithiau mewn perthynas ag etholiadau eisoes yn gymhleth ac yn dameidiog, a dylai'r Llywodraeth gadarnhau sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau ychwanegol o ganlyniad i ychwanegu deddfwriaeth newydd.

Rhan 1 Gweinyddu a chynnal etholiadau

Mae'n bwysig bod system etholiadol y DU yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae Rhan 1 o'r Bil yn cynnwys newidiadau mawr i'r ffordd y bydd pobl yn bwrw eu pleidlais mewn etholiadau yn y dyfodol.

Prawf adnabod pleidleiswyr

Mae lefelau isel o dwyll etholiadol profedig yn y DU, a dylai pleidleiswyr deimlo'n hyderus ynglŷn â'u pleidlais. Fodd bynnag, mae ein hymchwil wedi nodi bod y mater hwn yn peri pryder i rai pleidleiswyr. Dywedodd dwy ran o dair o'r bobl yn ein hymchwil olrhain barn y cyhoedd ddiweddar y byddai mwy o hyder ganddynt yn niogelwch y system bleidleisio pe bai angen dangos prawf adnabod.

Mae gwiriadau eisoes ar waith i gadarnhau pwy yw pleidleisiwr pan fydd yn cofrestru i bleidleisio ac yn pleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wiriadau tebyg ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr er mwyn atal rhywun rhag honni ei fod yn rhywun arall a phleidleisio yn ei enw. Mae hyn yn golygu bod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio ym Mhrydain Fawr yn agored i dwyll. Yng Ngogledd Iwerddon, bu'n ofynnol dangos prawf adnabod wrth bleidleisio ers 1985, wedi'i ddiweddaru i brawf adnabod â llun arno ers 2003.

Mewn etholiadau lleol yn 2018 a 2019, cafodd y defnydd o brawf adnabod i bleidleiswyr ei dreialu gan Lywodraeth y DU mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr. Cynhaliwyd gwerthusiadau statudol annibynnol gennym yn y ddwy flwyddyn. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, nodwyd tri maes allweddol y bydd angen eu hystyried yn ofalus os caiff gofyniad i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod ei gyflwyno:

- Dylai unrhyw ofyniad ar bleidleiswyr i ddangos prawf adnabod gyflwyno gwelliannau clir i'r lefelau diogelwch presennol. Dylai wella hyder y cyhoedd yn y system bleidleisio drwy amddiffyn pleidleiswyr rhag y risg o gambersonadu.

- Dylai unrhyw ofyniad newydd fod yn hygyrch i bob pleidleisiwr. Rhaid ystyried hyn ar gyfer pob pleidleisiwr, yn enwedig y rhai sy'n llai tebygol o feddu ar brawf adnabod derbyniol â llun arno eisoes. Mae'n rhaid sicrhau nad yw cyflwyno gofyniad i ddangos prawf adnabod yn atal y bobl hyn rhag pleidleisio.

- Dylai'r broses o gyflwyno unrhyw ofyniad i ddangos prawf adnabod fod yn un y gall gweinyddwyr etholiadau lleol ei chyflawni'n realistig, gyda therfynau amser ymarferol a chyllid priodol.

Mae'r Bil yn nodi cynigion ar gyfer gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ddangos prawf adnabod â llun arno yn etholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr, etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr, ac etholiadau lleol yn Lloegr. O blith y dulliau gweithredu a brofwyd yn y cynlluniau peilot, y dull hwn gynigiodd y gwelliant gorau mewn diogelwch.

Er mwyn sicrhau bod pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch o hyd, rhaid cydbwyso'r mesur diogelwch hwn ag opsiynau eraill ar gyfer pobl nad oes ganddynt brawf

adnabod derbyniol â llun arno eisoes. Mae'r Bil yn nodi'n glir bod yn rhaid i Gerdyn arfaethedig i Bleidleiswyr gael ei ddarparu am ddim.

Yn ein hymchwil olrhain barn y cyhoedd ddiweddar, dywedodd 4% o'r bobl a oedd yn gymwys i bleidleisio nad oes ganddynt unrhyw un o'r dogfennau adnabod a fyddai'n ofynnol o dan y cynigion hyn ar hyn o bryd. Roedd y ffigur hwn yn uwch ymhlith rhai grwpiau mwy difreintiedig, gan gynnwys pobl ddi-waith, pobl sy'n rhentu eiddo gan awdurdod lleol neu gymdeithas dai, a phobl ag anableddau.

Ystyriaethau allweddol

- Bydd y broses ar gyfer gwneud cais am Gerdyn arfaethedig i Bleidleiswyr a'u dosbarthu yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gofyniad i ddangos prawf adnabod yn hygyrch, yn enwedig i'r bobl hynny nad oes ganddynt y prawf adnabod gofynnol.
- Bydd sicrhau na chodir tâl am Gerdyn Pleidleiswyr yn bwysig, ond caiff manylion pellach pwysig am y broses ymgeisio eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Dylai'r Llywodraeth nodi wrth basio'r Bil sut y bydd yn gwneud yn siŵr y bydd gwneud cais am y Cerdyn Pleidleiswyr newydd yn hawdd i'r bobl sydd ei angen.

Pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy'r post yn ddull pleidleisio defnyddiol a phoblogaidd, a ddefnyddir gan oddeutu 20% o bleidleiswyr ym Mhrydain Fawr. Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn opsiwn pwysig i bobl na allant bleidleisio yn bersonol hefyd. Gwnaeth ychydig llai na 250,000 o bobl benodi dirprwy yn etholiad cyffredinol y DU yn 2019.

Mae'r Bil yn cynnig gwahardd ymgyrchwyr rhag ymdrin â phleidleisiau post, a fyddai'n ffurfioli'r dull gweithredu presennol a anogir gan God Ymddygiad gwirfoddol i Ymgyrchwyr. Mae'r Bil hefyd yn cynnig estyn rheolau cyfrinachedd pleidleisiau i gynnwys pleidleisiau post. Dylai'r newidiadau hyn wella ymddiriedaeth a hyder yn y system heb leihau mynediad i bleidleisio. Mae ein hymchwil barn y cyhoedd ddiweddar wedi dangos, er bod 90% o bobl yn dweud eu bod yn teimlo bod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn ddiogel, fod hyn yn cymharu â 68% o bobl sy'n credu bod pleidleisio drwy'r post yn ddiogel ac 11% a nododd nad ydynt yn gwybod.

Byddai'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr wneud cais arall am bleidlais bost ar ôl tair blynedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y dynodyddion personol (dyddiad geni a llofnod) ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn gyfredol ac yn gywir, a dylai leihau'r risg y caiff pleidleisiau post eu gwrthod am nad yw'r dynodyddion hyn yn cyfateb pan fydd pleidleiswyr yn dychwelyd pecynnau pleidleisio drwy'r post mewn etholiadau.

Nid yw'n glir sut y byddai cyfyngiadau newydd ar fynd â phleidleisiau post i orsafoedd pleidleisio, ac ar nifer y pleidleiswyr y gall unigolyn fod yn ddirprwy ar eu cyfer, yn cynnig diogelwch ychwanegol arwyddocaol i bleidleiswyr. Byddai ymgyrchwyr sy'n cyflwyno pleidleisiau post yn cyflawni trosedd o dan y gwaharddiad arfaethedig ar ymdrin â phecynnau pleidleisio drwy'r post, a byddai trosedd ddiwygiedig dylanwad gormodol hefyd yn gymwys pe bai pleidleiswyr yn cael eu gorfodi yn groes i'w hewyllys i roi eu pleidleisiau post i rywun arall neu benodi rhywun yn ddirprwy.

Ystyriaethau allweddol

- Gallai newidiadau i gyfyngu ar bwy sy'n gallu mynd â phleidleisiau post i orsaf bleidleisio, a faint ohonynt y gellir mynd â nhw, greu rhwystrau i rai pleidleiswyr y mae gwir angen cymorth arnynt. Byddent hefyd yn ychwanegu gweithdrefnau newydd cymhleth i staff gorsafoedd pleidleisio.
- Byddai cynnig y Bil i gofnodi pwy sydd wedi cyflwyno eu pleidleisiau post yn gwella diogelwch heb beryglu hygyrchedd drwy osod cyfyngiadau newydd ar y gallu i'w cyflwyno.
- Gallai cyfyngu ar nifer y pleidleiswyr y gellir gweithredu fel dirprwy ar eu rhan roi rhai pobl dan anfantais os oes angen rhywun i bleidleisio ar eu rhan, gan gynnwys pleidleiswyr tramor.

Dylanwad gormodol

Mae dylanwad gormodol yn drosedd etholiadol gymhleth nad yw'n hawdd i bleidleiswyr ei deall. Drwy symleiddio'r drosedd hon a'i diffinio'n fwy eglur, byddai hynny'n helpu i ddiogelu pleidleiswyr rhag camfanteisio a byddai'n ei gwneud yn glir beth sy'n ymddygiad derbyniol a beth nad yw'n ymddygiad derbyniol.

Byddai hefyd yn ei gwneud hi'n haws i'r heddlu ac erlynwyr orfodi'r gyfraith pan fo'n briodol. Ceir cefnogaeth eang i ddiwygio'r drosedd hon ymhlith ymgyrchwyr, gweinyddwyr etholiadau, yr heddlu ac erlynwyr.

Cymorth i bleidleisio ar gyfer pobl ag anableddau

Byddai'r newidiadau hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i bleidleiswyr ag anableddau o ran sut y cânt eu cynorthwyo mewn gorsafoedd pleidleisio. Dylai darparu amrywiaeth ehangach o gyfarpar mewn gorsafoedd pleidleisio ei gwneud hi'n haws i bobl ag anableddau gael cymorth priodol i allu bwrw eu pleidlais ar eu pen eu hunain ac yn gyfrinachol.

Byddai disodli'r gofynion penodol cyfredol a nodir mewn cyfraith â dyletswydd ehangach i weinyddwyr etholiadau ddarparu cyfarpar rhesymol yn galluogi pleidleiswyr ag anableddau i ddefnyddio cyfarpar neu dechnoleg newydd i'w helpu. Gallai hyn gefnogi arloesedd a chyflymu'r broses o ddarparu gwahanol fathau o gymorth pan nodir ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion pleidleiswyr.

Mae pobl ag anableddau hefyd wedi nodi y gall fod yn anodd dod o hyd i rywun sy'n gymwys i'w helpu i fwrw eu pleidlais yn eu gorsaf bleidleisio. Byddai dileu cyfyngiadau ar bwy all fod yn gydymaith yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis i bleidleiswyr ag anableddau o ran sut y cânt eu cefnogi.

Ystyriaethau allweddol

- Byddai'r Bil yn rhoi cyfrifoldebau ehangach ar weinyddwyr etholiadau er mwyn nodi pa gyfarpar fyddai'n rhesymol i gynnig cymorth i bleidleiswyr ag anableddau. Bydd yn bwysig i'r Llywodraeth sicrhau cyllid priodol i weinyddwyr lleol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cymorth hwn yn cael yr effaith briodol i bleidleiswyr ag anableddau.

- Bydd ein canllawiau yn helpu gweinyddwyr etholiadau i ystyried y ffordd orau o nodi a darparu'r math cywir o gymorth i bleidleiswyr ag anableddau o dan y cyfrifoldeb newydd hwn, gan sicrhau y gall pleidleiswyr gael gwasanaeth cyson lle bynnag y maent yn byw.

Darllen pellach

- Ein gwerthusiad annibynnol o gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr
- Ein hymchwil olrhain barn y cyhoedd 2021
- Ein hymateb i adolygiad Syr Eric Pickles a'i argymhellion ynglŷn â thwyll etholiadol
- Ein hadroddiad ar gofrestru a phleidleisio o safbwynt rhywun ag anabledd

Rhan 2 Pleidleiswyr tramor a dinasyddion yr UE

Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys cynigion i newid yr etholfraint yn sylweddol i ddinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor ac i ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE sy'n byw yn y DU.

Mae cynigion i newid pa grwpiau o bobl sydd â'r hawl i bleidleisio neu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau yn faterion cyfansoddiadol pwysig i'r Senedd eu hystyried a phenderfynu arnynt. Nid yw'r Comisiwn yn mabwysiadu safbwynt polisi mewn perthynas â newidiadau i'r etholfraint fel arfer, ond byddwn yn rhoi cyngor i'r Senedd ar eu heffaith bosibl a'u goblygiadau ymarferol.

Pleidleiswyr tramor

Mae ein hymchwil yn dilyn etholiadau cyffredinol y DU ers 2015 wedi canfod yn gyson fod rhai pleidleiswyr tramor wedi cael anawsterau sylweddol wrth geisio pleidleisio o'r tu allan i'r DU. Nid oedd llawer wedi cael digon o amser i dderbyn a dychwelyd eu pleidlais bost cyn diwedd y cyfnod pleidleisio, a oedd yn golygu na ellid cyfrif eu pleidleisiau.

Cofrestrwyd ychydig dros 230,000 o bobl fel pleidleiswyr tramor yn etholiad cyffredinol 2019. Gallai nifer mawr o bleidleiswyr newydd gael eu hychwanegu at y gofrestr etholiadol o ganlyniad i'r cynnig i ddileu'r terfyn 15 mlynedd presennol i ddinasyddion Prydeinig dramor gofrestru i bleidleisio yn y DU, ac felly gallai mwy o bobl wynebu'r problemau hyn mewn etholiadau yn y dyfodol.

Ystyriaethau allweddol

- Er mwyn helpu i gefnogi pleidleiswyr tramor i gael dweud eu dweud yn etholiadau Senedd y DU, rydym yn parhau i argymell y dylai'r Llywodraeth ystyried dulliau newydd o wella mynediad i bleidleisio, gan gyfeirio at dystiolaeth o wledydd eraill.
- Rydym wedi nodi'n flaenorol y gallai hyn gynnwys opsiynau megis caniatáu i bobl sydd y tu allan i'r DU bleidleisio mewn llysgenadaethau neu swyddfeydd is-genhadon, neu lawrlwytho ac argraffu pecynnau pleidleisio drwy'r post gartref er mwyn eu dychwelyd yn gynt.

Dinasyddion yr UE

Yn ystod y flwyddyn cyn mis Rhagfyr 2020, roedd 2.1 miliwn o ddinasyddion yr UE (nad ydynt yn ddinasyddion y DU) ar y cofrestrau etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Bydd angen rhaglen sylweddol o weithgareddau gan weinyddwyr etholiadau er mwyn gweithredu'r newidiadau arfaethedig i gymhwysedd dinasyddion yr UE i bleidleisio a sefyll fel ymgeiswyr mewn rhai etholiadau. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod i'r bobl yr effeithir arnynt am reolau a gofynion newydd yr etholfraint, ac adolygu eu statws er mwyn penderfynu a ydynt yn parhau i fod yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol.

Ystyriaeth allweddol

- Mae'n rhaid i'r broses o weithredu newidiadau i etholfraint a hawliau pleidleisio dinasyddion yr UE gael ei chynllunio'n dda a'i hariannu'n briodol er mwyn sicrhau bod yr holl bobl hynny sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio yn cael y cyfle i wneud hynny, a bod cofrestrau mor gywir a chyflawn â phosibl. Mae'n rhaid i waith cynllunio ac amseru'r Llywodraeth o ran rhoi'r newidiadau hyn ar waith ystyried y newidiadau mawr eraill a gynigir yn y Bil hwn.

Rhan 3 Y Comisiwn Etholiadol

Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol

Er mwyn sicrhau hyder yn nidueddrwydd ei ddull gweithredu, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol allu penderfynu ar ei flaenoriaethau a gweithio'n annibynnol ar ddylanwad neu reolaethau'r llywodraeth. Yn yr un modd, mae goruchwyliaeth seneddol a chraffu ar waith y Comisiwn yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod ni, fel sefydliad, yn ennyn ymddiriedaeth a hyder yn gyffredinol. Er mwyn sicrhau hyder y cyhoedd, mae'n hollbwysig bod y Comisiwn yn parhau i fod yn gwbl atebol i Senedd y DU, ac i Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys newidiadau sylweddol i drefniadau atebolrwydd presennol, gan gynnwys newidiadau i rôl a phwerau Gweinidogion, Pwyllgor y Llefarydd a'r Senedd. Byddai'r Strategaeth a'r Datganiad Polisi arfaethedig yn rhoi cwmpas newydd ac eang i Weinidogion heddiw ac yfory i gysoni gweithgareddau'r Comisiwn ag amcanion strategol y Llywodraeth, a llywio'r ffordd rydym yn arfer ein swyddogaethau rheoliadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda yn y dyfodol.

Erlyniadau troseddol

Mae camau gorfodi effeithiol pan fydd y gyfraith wedi cael ei thorri yn golygu bod gan bleidleiswyr ac ymgyrchwyr hyder yn y system etholiadol. Mae ganddynt yr hawl i ddisgwyl y bydd unrhyw blaid wleidyddol neu ymgyrchydd sy'n torri'r gyfraith etholiadol yn fwriadol neu'n ddi-hid yn wynebu cael ei erlyn.

Ni chafwyd unrhyw erlyniadau o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ers iddi gael ei phasio gan y Senedd 20 mlynedd yn ôl. Rydym wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r gyfundrefn cosbau sifil a gyflwynwyd 10 mlynedd yn ôl, ac mae'r heddlu ac erlynwyr wedi parhau i fod yn gyfrifol am ystyried erlyniadau. Gan fod y risg ymddangosiadol o gael eich erlyn am drosedd o dan y Ddeddf yn fach, mae goblygiadau pwysig ar gyfer atal.

Er bod pwerau presennol y Comisiwn i sefydlu swyddogaeth erlyn yn gyson â'r rhai sydd ar gael i lawer o reoleiddwyr eraill, mae'r Bil yn cynnig diddymu'r pwerau hyn. Byddai hyn yn lleihau'r cwmpas i bobl gael eu herlyn am droseddau cyllid gwleidyddol, gan ddibynnu'n llwyr ar adnoddau ac ewyllys yr heddlu ac erlynwyr i weithredu.

Ystyriaethau allweddol

- Mae'n bwysig y gall y Comisiwn Etholiadol barhau i weithio'n annibynnol i gyflawni'r dyletswyddau y mae deddfwrfeydd y DU wedi'u rhoi i ni fel rheoleiddiwr cyfraith etholiadol a chyllid gwleidyddol.
- Ni ddylai fod unrhyw ymwneud gwirioneddol na chanfyddedig â'n swyddogaethau gweithredol na'n prosesau gwneud penderfyniadau gan y llywodraeth. Mae'n rhaid i'n hannibyniaeth fod yn glir i bleidleiswyr ac ymgyrchwyr ei gweld a'i chadw mewn cyfraith etholiadol, gan fod hyn yn sail i degwch ac ymddiriedaeth yn y system etholiadol.

- Caiff y Comisiwn ei ariannu gan Senedd Cymru a Senedd yr Alban yn ogystal â Senedd y DU, ac mae'n atebol yn ffurfiol iddynt. Dylai'r Llywodraeth sicrhau y bydd y Strategaeth a'r Datganiad Polisi arfaethedig, a'r prosesau datblygu a chymeradwyo cysylltiedig, yn adlewyrchu'r cydberthnasau atebolrwydd a rennir pwysig hyn, ac na fyddant yn eu tanseilio.
- Os caiff y Comisiwn Etholiadol ei wahardd rhag ymgymryd ag erlyniadau troseddol, bydd angen sicrhau bod gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron y gallu i fwrw ymlaen ag erlyniadau lle y bo'n briodol, a heb unrhyw oedi diangen Byddai angen i'r Llywodraeth weithio gyda nhw i sicrhau bod hyn yn digwydd, a byddai'r Comisiwn yn parhau i'w cefnogi hefyd. Byddai hyn yn cynnwys yr ystod lawn o droseddau, o'r troseddau llai difrifol sydd yn aml yn cael eu hamlygu drwy ein gwaith ymchwiliol sifil, hyd at y troseddau mwy difrifol, megis torri terfynau gwariant cyfreithiol yn fwriadol.

Darllen pellach

- Gorfodi
- Ein Cynllun Corfforaethol a'n Hadroddiad Blynyddol

Rhan 4 Rheoleiddio gwariant

Mae Rhan 4 o'r Bil yn diwygio rhai o'r rheolau presennol sy'n cynnig tryloywder ac yn gosod terfynau ar wariant a chyllid mewn perthynas ag ymgyrchoedd etholiadol. Dangosodd ein hymchwil ddiweddar i agweddau'r cyhoedd fod pobl am weld gwelliannau mewn tryloywder, a dim ond 14% o bobl yn cytuno bod gwariant a chyllid pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a sefydliadau ymgyrchu eraill mewn etholiadau yn agored ac yn dryloyw.

Gwariant tybiannol ymgeiswyr ac eraill

Mae rheolau ynglŷn â gwariant tybiannol yn sicrhau bod ymgyrchwyr yn cyfrif yn briodol am nwyddau, gwasanaethau a deunyddiau a roddir iddynt ac a ddefnyddir ganddynt i'w helpu mewn unrhyw ffordd gyda gweithgareddau eu hymgyrch, ac yn rhoi gwybod amdanynt. Mae data ar wariant yn dangos mai cyfanswm y gwariant tybiannol y rhoddwyd gwybod amdano gan y 3,320 o ymgeiswyr a safodd yn etholiad cyffredinol y DU yn 2019 oedd £7 miliwn. Roedd hyn bron yn 40% o gyfanswm y gwariant ymgeiswyr y rhoddwyd gwybod amdano.

Mae angen i ymgeiswyr, asiantiaid a staff pleidiau neu ymgyrchu sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o pan fydd rhywbeth yn “wariant tybiannol” neu'n “dreuliau etholiad” gan ei fod yn cyfrif tuag at gyfanswm gwariant eu hymgyrch, y mae'n rhaid iddo beidio â mynd dros y terfyn gwariant penodedig. Mae'r rheol gyfredol ar wariant tybiannol yn hirsefydledig ac mae wedi gweithredu'n ymarferol ar gyfer etholiadau am flynyddoedd lawer.

Mae'r Llywodraeth am newid y prawf cyfreithiol ar gyfer pan fydd ymgeisydd neu asiant yn awdurdodi rhywun arall i ddefnyddio buddion mewn nwyddau neu wasanaethau ar ei ran. Byddai'r Bil yn diwygio'r rheolau fel y byddai ond angen i ymgeiswyr roi gwybod am fuddion mewn nwyddau neu wasanaethau y maent wedi'u “defnyddio” eu hunain neu y maent wedi awdurdodi, cyfarwyddo neu annog rhywun arall i'w “defnyddio” ar eu rhan.

Byddai'r newidiadau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â rheolau presennol ar gyfer ymgyrchwyr sy'n eu galluogi i wario swm a ganiateir ar hyrwyddo ymgeisydd mewn etholaeth ar wahân i'r asiant (e.e. hyd at £700 yn etholiadau cyffredinol y DU).

Ystyriaethau allweddol

- Dylid sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r ffordd y dylid trin treuliau neu gefnogaeth i ymgeisydd o dan y gyfraith. Mae angen i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr eraill fod yn glir ynghylch sut y dylid trin unrhyw dreuliau ar gyfer ymgyrchu mewn etholaeth o dan y newidiadau arfaethedig a'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Dylai'r Llywodraeth nodi sut mae wedi profi'r newidiadau arfaethedig gydag ymgyrchwyr er mwyn helpu i sicrhau bod safbwynt cyffredin o ran sut y dylid rhoi cyfrif am gefnogaeth i ymgeisydd a sut y dylai'r gefnogaeth honno gael ei hawdurdodi, p'un ai'r asiant sy'n talu am y gefnogaeth honno neu rywun arall.
- Os caiff y newidiadau hyn eu pasio'n gyfraith, bydd angen i ni adeiladu ar y safbwynt cyffredin hwn er mwyn rhoi canllawiau i ymgyrchwyr a diweddaru'r Cod Ymarfer statudol drafft rydym wedi'i baratoi ar dreuliau etholiad ymgeiswyr. Mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes yn meddu ar bŵer i baratoi Cod statudol i'w gymeradwyo gan y

Gweinidog a'r Senedd, a byddai'r pŵer hwn yn ehangu i gwmpasu gwariant tybiannol.

Cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Byddai ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol newydd nodi unrhyw asedau neu rwymedigaethau sydd ganddynt sy'n werth dros £500 pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru, yn ymdrin â bwlch sydd yn y rheolau cyfredol ar gyfer cyfrifon pleidiau. Dylai roi mwy o dryloywder i bleidleiswyr drwy eu galluogi i weld o'r cychwyn cyntaf faint o gyllid neu ddyled sydd gan blaid newydd.

Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno gwaharddiad ar endidau'n cael eu cofrestru fel pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ar yr un pryd. Er bod achosion wedi bod yn y gorffennol lle mae unigolion wedi bod yn gysylltiedig â phlaid mewn rhyw ffordd ac yn ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar yr un pryd, dim ond un enghraifft a gafwyd yn ystod y deng mlynedd diwethaf lle mae'r un endid wedi'i gofrestru fel plaid wleidyddol ac ymgyrchydd nad yw'n blaid ar yr un pryd.

Ystyriaethau allweddol

- Mae'n debygol y bydd y gwaharddiad arfaethedig ar gofrestru endidau fel pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ar yr un pryd yn lleihau rhai mathau o weithgarwch ymgyrchu mewn etholiadau yn y dyfodol. Byddai'n lleihau'r swm y gall pleidiau gwleidyddol ddewis ei wario ar gefnogi neu wrthwynebu plaid arall neu ei hymgeiswyr, gan gynnwys mewn etholiadau pan na fydd plaid yn cyflwyno unrhyw ymgeiswyr ei hun. Gallai effeithio ar bleidiau ac ymgyrchwyr eraill a fyddai'n ystyried cynghreiriau a chytundebau etholiadol yn y dyfodol.
- Wrth dderbyn hysbysiadau gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau fel rhan o'n rôl fel cofrestrydd statudol pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, bydd angen i ni gadarnhau bod yr endid sy'n hysbysu yn gymwys. Bydd yn bwysig sicrhau bod y gyfraith yn cynnig eglurder a sicrwydd o ran sut i benderfynu os mai “yr un” endid yw plaid wleidyddol ac ymgyrchydd nad yw'n blaid, fel y gall y Comisiwn a'r rhai sy'n gwneud cais i gofrestru ddeall y gofyniad newydd a'i gymhwyso'n gyson.

Gwariant a reolir gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn rhan hollbwysig o ddemocratiaeth iach ac maent yn chwarae rôl bwysig o ran rhannu gwybodaeth â phleidleiswyr. Mae'n bwysig y gall y grwpiau hyn gymryd rhan yn etholiadau'r DU yn hawdd. Mae rheolaethau mewn cyfraith etholiadol yn helpu pleidleiswyr i weld a deall sut mae'r grwpiau hyn yn cael arian ac yn ei wario pan fyddant yn bwriadu dylanwadu ar ganlyniad etholiad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer yr ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Mae gwariant gan y grwpiau hyn wedi cynyddu hefyd. Yn etholiad cyffredinol y DU yn 2019, roedd 61 o ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau, a chofnododd y rhai yr oedd yn ofynnol iddynt roi gwybod am eu gwariant gyfanswm gwariant o fwy na £6m. Dangosodd ein hymchwil ddiweddar i agweddau'r cyhoedd rai pryderon ynghylch y risg o ymyrraeth o dramor. Pan wnaethom ofyn i bobl flaenoriaethu eu pryderon o restr o faterion, dywedodd

dwy ran o bump (40%) fod “ymyrraeth o dramor yng nghanlyniadau etholiadau'r DU” yn broblem.

Mae'r Bil yn cynnig gwneud sawl newid i'r rheolau ar ymgyrchu gan rai nad ydynt yn bleidiau. Dylai haen is newydd ar gyfer cofrestru ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau roi mwy o dryloywder o ran pwy sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 yn Lloegr neu ar draws y DU gyfan yn ystod y cyfnod cyn etholiad cyffredinol y DU. Ar hyn o bryd, dim ond os yw ymgyrchwyr yn bwriadu gwario £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon y mae angen iddynt gofrestru â'r Comisiwn ac adrodd am wariant.

Byddai newid y terfynau ar ymgyrchu heb gofrestru yn ei gwneud hi'n glir nad yw ymyrraeth o dramor yn etholiadau'r DU yn dderbyniol. Yn ystod y cyfnod a reoleiddir cyn etholiad, dim ond categorïau penodol o unigolion a sefydliadau fyddai'n cael gwario mwy na £700 ar weithgareddau y bwriedir iddynt ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Byddai hyn yn ostyngiad sylweddol o'r terfynau presennol ar gyfer ymgyrchu heb gofrestru, a byddai'n cyflwyno egwyddor newydd sef bod ymgyrchwyr yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwysedd hyd yn oed pan na fydd angen iddynt fod wedi'u cofrestru.

Byddai estyn y rheolau ar wariant ar y cyd fel eu bod yn gymwys i bleidiau gwleidyddol sy'n gwario ar y cyd ag ymgyrchydd nad yw'n blaid, yn cynyddu tryloywder ac yn helpu i sicrhau bod y terfynau gwariant yn effeithiol. Byddai angen nodi'n glir sut y bydd y rheol ychwanegol hon yn ymarferol yn cyd-fynd â rheolau gwariant eraill i bleidiau. Mae'n rhaid i bleidiau allu dweud yn glir pryd mae'r rheol ar wariant ar y cyd yn gymwys, a phryd mae terfynau neu reolaethau eraill yn gymwys, megis y rheolau presennol ar wariant a dargedir neu wariant tybiannol.

Ystyriaethau allweddol

- Mae'n bwysig i hyder y cyhoedd bod tryloywder yn ofynnol a bod terfynau'n cael eu gosod ar wariant ymgyrch sydd â'r nod o ddylanwadu ar ganlyniadau etholiad, gan gynnwys pan gaiff hynny ei wneud gan actorion nad ydynt yn ymgeiswyr nac yn bleidiau gwleidyddol.
- Byddai'r newid yn cynnig mwy o dryloywder ynglŷn â phwy sy'n bwriadu ymgyrchu, ond ni fydd angen adrodd am unrhyw symiau ychwanegol o wariant gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau o gymharu â'r rheolau presennol.
- Mae'r cynigion yn golygu y byddai tair lefel ar wahân o reolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n gymwys i ymgyrchu heb gofrestru, cofrestru ymgyrchwyr, a chofrestru ac adrodd am wariant ymgyrchwyr. Gellid ystyried y lefelau hyn fel haenau cymesur o reolau, ond gallent hefyd ychwanegu at ganfyddiadau o gymhlethdod. Diwygiwyd y rheolau ddiwethaf gan ddeddfwriaeth yn 2014 ac mae ymgyrchwyr wedi nodi bod y newidiadau'n gymhleth a'u bod wedi rhwystro rhai rhag cymryd rhan.
- Dylai'r Llywodraeth nodi sut y mae'n bwriadu gorfodi'r cyfyngiadau ar wariant o dramor. Nid ydym yn gallu cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn sefydliadau nac unigolion y tu allan i'r DU nad ydynt yn dilyn y gyfraith. Mae cyfyngiadau hefyd ar gyrff gorfodi cyfraith trosedd o ran y camau y gallant eu cymryd yn erbyn pobl neu sefydliadau sydd wedi'u lleoli dramor.

- Bydd yn bwysig sicrhau bod y newidiadau arfaethedig i'r rheolau hyn yn gymesur ac nad ydynt yn gwneud i ymgyrchwyr fod yn amharod i gymryd rhan a rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr.

Darllen pellach

- Ein hadolygiad rheoleiddiol o gyllid pleidiau ac etholiadau, 2013
- Ein taflen ar wariant tybiannol a'n canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- Pwyllgor Technoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: *Disinformation and 'fake news'*, 2019
- Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi: Adroddiad ar Ddemocratiaeth a Thechnolegau Digidol, 2020

Rhan 5 Anghymwyso troseddwyr rhag dal swydd etholedig ac ati

Yn sgil etholiad cyffredinol y DU yn 2019, dywedodd dros hanner yr ymgeiswyr a gymerodd ran yn ein hymchwil ar ôl etholiad eu bod yn pryderu am sefyll etholiad oherwydd y risg o ymddygiad sy'n codi ofn, bygythiadau a difrïo. Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr eu bod wedi cael profiad o'r math hwn o ymddygiad.

Mae'n hollbwysig bod camau yn cael eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n difrïo, bygwth neu godi ofn ar ymgeiswyr ac ymgyrchwyr. Byddai cynigion yn Rhan 5 o'r Bil yn galluogi'r llysoedd i wahardd rhywun rhag sefyll etholiad am swydd etholedig. Byddai hyn yn gosb bellach, yn ychwanegol at ddedfryd o garchar neu ddirwy er enghraifft, y gallai llys ei gosod pan fyddai'n dyfarnu troseddau o dan gyfraith etholiadol bresennol. Er y byddai hyn yn cryfhau'r ystod o gosbau a fyddai ar gael yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol am y math hwn o ymddygiad, byddai angen monitro ei effaith ymarferol fel dull atal.

Darllen pellach

- Ein hymateb i ymgynghoriad polisi Llywodraeth y DU: *Protecting the Debate*
- Ein harolwg o ymgeiswyr ar ôl etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2019

Rhan 6 Gwybodaeth i gael ei chynnwys gyda deunydd electronig

Mae ymgyrchu digidol yn cyfrif am gyfran gynyddol fawr o wariant a gofnodwyd gan ymgyrchwyr ar ôl etholiadau. Yn dilyn etholiad cyffredinol y DU yn 2019 ac Etholiadau Senedd Ewrop, nododd pleidiau gwleidyddol fod gwariant ar hysbysebu digidol yn cynrychioli 53% o gyfanswm eu gwariant ar hysbysebu.

Mae technolegau newydd yn cynnig cyfleoedd mawr i ennyn diddordeb pleidleiswyr, ond mae'n rhaid iddynt fod yr un mor dryloyw i bleidleiswyr â deunydd argraffedig. Canfu ein hymchwil olrhain barn y cyhoedd ddiweddar mai dim ond 21% o bobl oedd yn credu y gallent ganfod pwy sydd wedi cynhyrchu'r deunydd gwleidyddol maent yn ei weld ar-lein, ac roedd 37% yn anghytuno. Roedd dros 70% o bobl yn cytuno y dylai fod yn glir faint sydd wedi cael ei wario ar hyrwyddo hysbyseb, gan bwy a pham ei bod yn targedu'r unigolyn dan sylw hefyd.

Bydd defnyddio rheolau newydd ar dryloywder argraffnodau ar ddeunyddiau etholiad digidol yn helpu pleidleiswyr y DU i ddeall pwy sy'n talu i'w targedu ar-lein, a dylai helpu i wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd mewn ymgyrchoedd digidol mewn etholiadau a refferenda yn y dyfodol.

Byddai'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr gynnwys argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu ‘gwleidyddol’ digidol, nid dim ond deunydd etholiad. Bydd hyn yn gwella tryloywder ymhellach i bleidleiswyr drwy ddarparu gwybodaeth bwysig am bwy sydd wedi cynhyrchu ac ariannu deunydd ar bob adeg, ac nid yn ystod y cyfnod cyn etholiad yn unig.

I sicrhau hyder pleidleiswyr mewn rheoleiddio ymgyrchoedd digidol, dylid cymryd camau cyflym i fynd i'r afael ag unrhyw ddeunydd ymgyrchu nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion newydd ar gyfer argraffnodau. Byddai'r Bil yn creu dyletswydd newydd i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu digidol roi gwybodaeth i'r Comisiwn a'r heddlu am bwy sydd wedi cyflenwi'r deunydd a thalu amdano, a fyddai'n ein helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Mae hefyd yn nodi dyletswyddau i ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol a hysbysebu digidol, gan gynnwys dyletswydd i dynnu deunydd heb argraffnod unwaith y bydd llys wedi dyfarnu collfarn neu pan fydd y Comisiwn wedi rhoi cosb i ymgyrchydd.

Ystyriaethau allweddol

- Gellid gwella trylowyder ymhellach i bleidleiswyr pe bai'r gofynion o ran argraffnodau'n cael eu hestyn i gwmpasu pob math o ddeunydd digidol gan ymgyrchwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cofrestru â ni, hyd yn oed os nad oeddent wedi talu i'w hyrwyddo. O dan y rheolau arfaethedig, byddai ond angen gosod argraffnodau ar ddeunydd digidol gan ymgyrchwyr nad ydynt wedi'u cofrestru os oedd yn hysbyseb y talwyd amdani.

- Bydd angen i gynigion y llywodraeth i estyn rheolau ynglŷn ag argraffnodau i ddeunydd etholiad digidol gael eu hategu gan esboniad manwl pellach ac enghreifftiau i ymgyrchwyr ac eraill. Bydd yn bwysig sicrhau bod y ddeddfwriaeth a'r

canllawiau yn rhoi diffiniad clir o ystyr ‘deunydd gwleidyddol’, fel y gall unrhyw un sy'n cyhoeddi deunydd a allai gael ei gwmpasu ddeall y rheolau newydd a'u dilyn.

- Mae'r Bil yn cynnig dyletswydd newydd i'r Comisiwn Etholiadol baratoi canllawiau statudol ar argraffnodau digidol, a chynigir yn y Bil y byddai Gweinidogion a'r Senedd yn cymeradwyo'r rhain. Dylai'r Llywodraeth nodi ei thybiaethau o ran pryd y dylai'r rheolau ynglŷn ag argraffnodau digidol ddechrau fod yn gymwys i ddeunydd ymgyrchu. Bydd angen i'r Llywodraeth ganiatáu amser rhesymol i ni ymgynghori ag ymgyrchwyr a llunio'r canllawiau statudol os ydym am eu rhoi ar waith cyn i'r gofyniad ddod i rym.
- Bydd y rheolau yn cynnwys darpariaethau i dynnu deunydd heb argraffnod i lawr, ond mae'n annhebygol y cânt eu rhoi ar waith yn gyflym. Dim ond ar ôl i lys neu'r Comisiwn benderfynu'n ffurfiol ar drosedd ac ar ôl i ymgyrchydd gael cyfle i gyflwyno ei achos y gellid eu rhoi ar waith.

Darllen pellach

- Ein hymateb i ymgynghoriad technegol Swyddfa'r Cabinet ar argraffnodau digidol
- Ein hadroddiad ar wella tryloywder mewn ymgyrchu digidol, 2018